

Patrwm cyflwyno: Hydref – Mehefin

Disgrifiad o'r modiwl

Y modiwl hwn yw'r modiwl lefel 3 (SCQF lefel 10) gorfodol ar gyfer gradd (Q94) BA (Anrh) Astudiaethau Addysg (Cynradd). Mae ar gyfer myfyrwyr sydd â diddordeb mewn addysg gynradd, ar gyfer y rhai hynny sydd am fod yn athrawon ysgolion cynradd, neu bobl sy'n gweithio, yn gwirfoddoli, neu sydd am fynd i'r sector addysg ehangach, gan gynnwys addysg amgueddfa, addysg gymunedol, cyrff anllywodraethol, neu weinyddiaeth addysg.

Mae E309 yn fodiwl academiaidd sy'n gofyn llawer ac sy'n canolbwyntio ar ymarfer. Bydd yn helpu myfyrwyr i ddatblygu gwybodaeth gadarn a dealltwriaeth feirniadol o'r ffactorau cyd-destunol cymharol, egwyddorion, materion, damcaniaethau a gwaith ymchwil sy'n dylanwadu ar bolisi ac arferion addysg cenedlaethol a rhyngwladol ar gyfer plant ysgol gynradd. Bydd myfyrwyr yn archwilio dylanwadau cymdeithasol, hanesyddol, gwleidyddol, diwylliannol ac athronyddol ar ddysgwyr gwahanol, mewn cyd-destunau addysgol gwahanol, drwy'r dulliau gweithredu gwahanol a fabwysiadwyd yn y sefyllfaoedd penodol i gyd-destun. Bydd myfyrwyr yn ystyried pwysigrwydd lleisiau a safbwyntiau'r plant yn y gymuned addysg gynradd.

Os nad ydynt eisoes yn gweithio neu'n gwirfoddoli mewn lleoliad ymarfer addysg gynradd, anogir myfyrwyr i drefnu mynediad yn ystod y modiwl (awgrymir o leiaf 10 diwrnod). Mae hwn yn fodiwl sy'n canolbwyntio ar ymarfer, yn hytrach na modiwl sy'n seiliedig ar waith. Fel y cyfryw, nid oes unrhyw ofynion na chymorth gan Y Brifysgol Agored (gan gynnwys y tiwtor) ar gyfer sefydlu trefniadau mentora ffurfiol yn yr ysgol. Bydd y tîm Canolog yn darparu arweiniad i fyfyrwyr a ddechreuodd y modiwl heb leoliad.

Mae E309 yn rhoi myfyrwyr mewn sefyllfa gref a fydd yn chwilio am swydd yn y sector addysg, ar ôl cwblhau eu gradd, ac yn gwneud cais am hyfforddiant athrawon yn yr ystod oedran cynradd, neu'n ystyried astudio ymhellach ar lefel Meistr. Mae asesiadau yn ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr gydweithio â'u cyfoedion a bydd yn ei gwneud yn ofynnol i diwtoriaid hwyluso cydberthnasau gwaith grŵp bach. Bydd myfyrwyr yn datblygu sgiliau academiaidd a phroffesiynol gan gynnwys:

- Y gallu i ddadansoddi a gwerthuso cysyniadau, damcaniaethau, gwerthoedd, polisiau ac ymarferion yn feirniadol ac yn systematig mewn perthynas â dysgu plant mewn amrywiaeth o gyd-destunau cynradd;
- Er mwyn defnyddio amrywiaeth o dechnolegau digidol yn effeithiol ar gyfer astudio ac asesu, cydweithredu ar-lein ac i gefnogi eu datblygiad proffesiynol parhaus;
- Datblygu fel dysgwyr creadigol, llawn dychymyg a myfyriol;
- Gallu cynllunio a rheoli amser a thasgau a gweithio o fewn terfynau amser;
- Nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu, ceisio adborth a dysgu ohono.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a gaiff eu nodi ym manyleb gyffredinol y person, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd Anrhydedd yn un o'r canlynol: Astudiaethau Addysg, Blynyddoedd Cynnar, pwnc cwricwlwm cynradd, datblygiad rhyngwladol neu addysg gymharol, addysg a chynaliadwyedd;
- profiad fel athro ysgol gynradd neu addysgwr athrawon, neu brofiad helaeth o weithio yn y sector diwylliannol ar gyfer addysg neu i adran addysg corff anllywodraethol;

- dealltwriaeth eang o dueddiadau addysgol ar lefelau cenedlaethol a rhyngwladol;
- profiad o weithio gyda dysgwyr sy'n oedolion yn y DU neu'n rhyngwladol a all fod yn gynorthwyr addysgu, gwirfoddolwyr a/neu staff cymorth dysgu tebyg mewn ysgolion neu'r sector addysg;
- profiad o asesu a rhoi adborth ysgrifenedig effeithiol ar aseiniadau a gynhrychir gan ddysgwyr sy'n oedolion;
- parodrwydd i ymgysylltu â dulliau asesu arloesol ac anhraddodiadol;
- y gallu i helpu myfyrwyr i ddefnyddio tiwtorialau ar-lein ac i ddefnyddio llinynnau trafod ar-lein anghydamserol (fforwm) i'w helpu i ddatblygu sgiliau ar gyfer astudio ar-lein yn effeithiol;
- y gallu i helpu myfyrwyr i gydweithio mewn gweithgareddau astudio ac asesu drwy gydol y modiwl;
- y gallu i helpu myfyrwyr i ysgrifennu at ddibenion academiaidd ar y Lefel hon;
- ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth o wahanol systemau addysg mewn gwledydd gwahanol neu'n fyd-eang a goblygiadau mewn polisïau a chwricwla byd-eang a lleol.

Byddai'n fanteisiol meddu ar y canlynol:

- Cymhwyster ôl-raddedig
- Profiad o gydweithio â chymheiriaid er mwyn darparu gwersi
- Profiad o weithio ar Lefel 3 (Astudiaethau gyda'r Brifysgol Agored), Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch (FHEQ) lefel 6, neu SCQF lefel 10

Gwybodaeth ychwanegol

Heblaw am y Darlennydd modiwl argraffedig, mae E309 yn fodiwl ar-lein. Mae'r holl diwtorialau ar-lein. Disgwylir i diwtoriaid fod yn rhagweithiol wrth helpu eu myfyrwyr i ddod yn hyderus ac yn effeithiol yn eu hymgysylltiad ar-lein. Disgwylir i diwtoriaid helpu myfyrwyr yn y ffyrdd canlynol yn rheolaidd:

- dechrau a chefnogi llinynnau trafod ar-lein rheolaidd, cymedroli/addysgu ar fforwm grŵp tiwtor eich myfyrwyr
- cynnwys gweithgareddau tiwtorialau sy'n ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr ymgysylltu ag amrywiaeth o nodweddion ar-lein y modiwl, ac ymateb i unrhyw anawsterau y gall myfyrwyr eu hwynebu â rhain
- sefydlu a datrys problemau e-grwpiau bach o fewn eich grŵp tiwtor
- cysylltu â myfyrwyr unigol drwy e-bost yn rheolaidd a, lle y bo'n briodol, ag aelodau o dîm canolog y modiwl a'ch rheolwr clwstr
- nodi myfyrwyr sy'n wynebu risg a'r rhai nad ydynt yn ymgysylltu, a myfyrwyr heb leoliad ymarfer, yn gynnar a'u hatgyfeirio'n briodol, ar gyfer eu monitro a'u cefnogi.

Bydd hyfforddiant ar y modiwl hwn yn cynnwys gweithio fel rhan o dîm o ddarlithwyr cyswllt mewn grŵp clwstr. Byddwch yn gweithio fel rhan o dîm cydweithredol, gan rannu tasgau hyfforddi ar gyfer tiwtorialau ar-lein ar adegau. Disgwylir i chi fynd i'r Fforwm Tiwtor yn rheolaidd.

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	60
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	4
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	7
Nifer o oriau yr wythnos addysgu sy'n debygol:	6

Nid yw'r strategaeth addysgu ac asesu ar gyfer y modiwl hwn wedi cael ei gymeradwyo eto ac felly mae'n bosibl y caiff y wybodaeth ei newid.